**LC1425**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Niwsansau Statudol (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn yr eithriad amaethyddol o ddeddfwriaeth niwsans statudol sy'n ymwneud â thrychfilod ac yn gwneud newidiadau i reoliadau apelio sy'n ymwneud â hyn a golau artiffisial.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae nifer o anghysondebau'n bodoli rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Er nad oes gan yr un o'r rhain effaith gyfreithiol, maent yn awgrymu bod mân newidiadau wedi cael eu gwneud i'r testun Saesneg ar ôl iddo gael ei gyflwyno i'w gyfieithu. Mae'r paragraff sy'n cyflwyno'r pwerau yn wahanol iawn yn y ddwy iaith. Mae'r testun Cymraeg, er enghraifft, yn cyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol, er nad yw'r testun Saesneg yn gwneud hynny. Mae'r testun Cymraeg hefyd yn defnyddio'r talfyriad cyffredin, "Deddf 1990", ond nid yw'r testun Saesneg yn gwneud hynny tan reoliad 3(1), lle y'i defnyddir heb iddo gael ei ddiffinio na'i esbonio cyn hynny (ar wahân i'r cyfeiriad yn y Nodyn Esboniadol, nad yw'n rhan o'r ddeddfwriaeth).

Yn yr un modd, mae'r testun Saesneg o reoliad 2 yn cyfeirio at "the first column of the Table in the Schedule" tra bo'r Gymraeg yn dweud "yn yr Atodlen" yn unig. Yn yr ychwanegiad gan reoliad 3(2), mae'r gair "or" yn ymddangos ar linell ar ei ben ei hun rhwng is-baragraffau (aa) a (bb) yn y testun Saesneg, tra'i fod yn dod ar ddiwedd (aa) yn y testun Cymraeg. Mae gan y tabl yn yr Atodlen "Y

ddeddfwriaeth" fel pennawd i’r ail golofn. Nid oes pennawd yn y testun Saesneg. Mae gwahaniaethau tebyg hefyd yn y Nodyn Esboniadol.

Er y dylai’r testunau adlewyrchu gwahaniaethau ieithyddol naturiol, ni ddylent gynnwys gwahaniaethau a fyddai’n bosibl eu hosgoi fel hyn. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw’r rhain sy’n addas i’w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae dau Gynllun sy’n ymwneud â Pharthau Perygl Nitradau, ac sydd wedi’u dirymu, wedi’u rhestru yn yr Atodlen o ddeddfwriaeth berthnasol. Deallir mai’r rheswm am hyn yw bod rhai o amodau’r cynlluniau yn parhau i fod yn berthnasol.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 16 Ionawr 2007